OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 593 (Cy. 70)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) 2014

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi amryw faterion at ddibenion adran 108 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Mae adran 108 yn darparu ar gyfer digolledu drwy daliad mewn achosion penodol pan fo caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a roddwyd gan orchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol yn cael ei dynnu'n ôl, a phan fo cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad hwnnw yn cael ei wrthod neu fod y caniatâd yn cael ei roi yn ddarostyngedig i amodau.

Mae adran 108(2A) a 3(B) i 3(D) (fel y'u diwygiwyd gan Orchymyn Caniatâd Cynllunio (Tynnu'n ôl Orchymyn Datblygu neu Orchymyn Datblygu Lleol) (Iawndal) (Cymru) 2012) (O.S. 2012/210 (Cy.36)) yn caniatáu cyfyngu ar yr amgylchiadau pan fo digolledu yn daladwy. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi mathau o ddatblygiad at ddibenion adran 108(2A) a (3C) (rheoliad 2), y dull ar gyfer tynnu'n ôl ganiatâd cynllunio (rheoliad 3), a'r dull, a'r cyfnod hiraf, ar gyfer rhoi hysbysiad o dynnu'n ôl, dirymu, diwygio neu gyfarwyddiadau (rheoliadau 4 a 5). Mae'r mathau rhagnodedig o ddatblygiad eisoes yn cynnwys datblygiad a ganiateir gan y rhannau canlynol o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (O.S. 1995/418) ("Gorchymyn 1995"): Rhan 1 (datblygu o fewn cwrtil tŷ annedd); Dosbarth A o Ran 8 (estyn neu addasu adeilad diwydiannol neu warws); Rhan 32 (ysgolion, colegau, prifysgolion ac ysbytai); Rhan 40 (gosod cyfarpar microgynhyrchu domestig) a Rhan 43 (gosod cyfarpar microgynhyrchu

annomestig). Mae'r mathau rhagnodedig o ddatblygiad bellach hefyd yn cynnwys Rhan 8 Dosbarth E (storfeydd sbwriel a beiciau o fewn cwrtil adeilad diwydiannol neu warws), Rhan 41 (swyddfeydd) a Rhan 42 (siopau a sefydliadau gwasanaethau ariannol neu broffesiynol).

Effaith y Rheoliadau hyn yw, pan gaiff yr hawliau datblygu a ganiateir a nodir yn rheoliad 2 eu tynnu'n ôl gan gyfarwyddiadau o dan adran 108(2A), nad yw digolledu yn daladwy ond mewn perthynas â'r ceisiadau cynllunio a wnaed o fewn 12 mis yn dechrau ar y dyddiad y daeth y cyfarwyddiadau yn effeithiol. Mae'r materion a ragnodir yn rheoliadau 3 a 4 yn ymwneud â chaniatâd cynllunio a roddir gan orchymyn datblygu ac yn darparu mecanwaith i'r hawliau datblygu a ganiateir a nodir yn rheoliad 2 gael eu tynnu'n ôl heb fod digolledu yn daladwy, cyhyd â bod y gweithdrefnau rhagnodedig yn cael eu dilyn o ran y dull tynnu'n ôl, y dull o gyhoeddi'r tynnu'n ôl a'r cyfnod hiraf o hysbysiad y caniateir ei roi mewn perthynas â'r tynnu'n ôl. Mae Rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth debyg o ran tynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir a roddir gan orchymyn datblygu lleol.

Mae Rheoliad 6 yn ddarpariaeth drosiannol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ac yn cydgrynhoi Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) (Rhif 2) 2012 (O.S. 2012/789 (Cy.105) a ddirymir gan reoliad 7.

Mae asesiad effaith wedi ei baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae copïau ar gael gan Lywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 593 (Cy. 70)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Mawrth 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *13 Mawrth 2014* |
| *Yn dod i rym* | *28 Ebrill 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 108 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) 2014 a deuant i rym ar 28 Ebrill 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Atodlen 2" *("Schedule 2")* yw Atodlen 2 i Orchymyn 1995;

(**1**) 1990 p.8. Diwygiwyd adran 108 gan adran 13(3) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p.34), adran 40(2) a pharagraffau 1 a 6 o Atodlen 6 i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5), adran 189 o Ddeddf Cynllunio 2008 (p.29), adran 121 a pharagraffau 1 a 15 o Atodlen 12 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p.20), adran 63 a pharagraffau 2 a 3 o Atodlen 17 i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 a Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (O.S. 2006/1281). Diwygiwyd is-adrannau 108(2A), (3C), (3D) a (6) gan Orchymyn Caniatâd Cynllunio (Tynnu'n ôl Orchymyn Datblygu neu Orchymyn Datblygu Lleol) (Iawndal) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/210) (Cy.36)).

(**2**) Diwygiwyd adran 108(6) er mwyn rhoi swyddogaethau mewn perthynas â Chymru sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru, gan Orchymyn Caniatâd Cynllunio (Tynnu'n ôl Orchymyn Datblygu neu Orchymyn Datblygu Lleol) (Iawndal) (Cymru) 2012.

ystyr "y Ddeddf" *("the Act")* yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "Gorchymyn 1995" *("the 1995 Order")* yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995**(1)**.

### Datblygiad rhagnodedig

**2.** At ddibenion paragraffau (2A)(a) a (3C)(a) o adran 108 o'r Ddeddf (digolledu pan gaiff gorchymyn datblygu neu orchymyn datblygu lleol ei dynnu'n ôl), caiff datblygiad o'r disgrifiad canlynol ei ragnodi—

(a) datblygiad a ganiateir gan Ran 1 o Atodlen 2 (datblygiad o fewn cwrtil tŷ annedd);

(b) datblygiad a ganiateir gan Ddosbarthiadau A ac E o Ran 8 o Atodlen 2 (estyn neu addasu adeilad diwydiannol neu warws a chodi neu adeiladu storfa sbwriel neu feiciau o fewn cwrtil adeilad diwydiannol neu warws);

(c) datblygiad a ganiateir gan Ran 32 o Atodlen 2 (ysgolion, colegau, prifysgolion ac ysbytai);

(d) datblygiad a ganiateir gan Ran 40 o Atodlen 2 (gosod cyfarpar microgynhyrchu domestig);

(e) datblygiad a ganiateir gan Ran 41 o Atodlen 2 (swyddfeydd);

(f) datblygiad a ganiateir gan Ran 42 o Atodlen 2 (siopau, sefydliadau gwasanaethau ariannol neu broffesiynol); ac

(g) datblygiad a ganiateir gan Ran 43 o Atodlen 2 (gosod cyfarpar microgynhyrchu annomestig).

### Dull rhagnodedig o dynnu'n ôl ganiatâd cynllunio

**3.** At ddibenion adran 108(3C)(b) o'r Ddeddf, y dull rhagnodedig ar gyfer tynnu'n ôl ganiatâd cynllunio yw drwy gyfarwyddyd yn unol ag erthyglau 4, 5 a (fel y bo'n briodol) 6 o Orchymyn 1995.

### Hysbysiad o'r tynnu'n ôl – y dull a'r cyfnod rhagnodedig

**4.** At ddibenion adran 108(3C)(c) o'r Ddeddf—

---

**(1)** O.S 1995/418.

(a) y dull rhagnodedig ar gyfer cyhoeddi hysbysiad o'r tynnu'n ôl yw'r dull a ddisgrifir yn erthyglau 5 a (fel y bo'n briodol) 6 o Ddeddf 1995; a

(b) y cyfnod rhagnodedig yw 24 mis.

**Hysbysiad o ddirymu, diwygio neu gyfarwyddiadau – y dull a'r cyfnod rhagnodedig**

**5.** At ddibenion adran 108(3D)(c) o'r Ddeddf —

(a) y dull rhagnodedig ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad o ddirymu, diwygio neu gyfarwyddiadau yw'r dull a ddisgrifir ym mharagraffau (7) ac (8) o erthygl 27 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**1**); a

(b) y cyfnod rhagnodedig yw 24 mis.

**Darpariaeth drosiannol**

**6.** Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw dynnu'n ôl o ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o ddisgrifiad a ragnodir yn rheoliad 2(d) pan fo, cyn 18 Mehefin 2012—

(a) hysbysiad o'r cyfarwyddyd yn tynnu'n ôl y caniatâd cynllunio hwnnw wedi cael ei roi yn unol ag erthygl 5 o Orchymyn 1995; neu

(b) y cyfarwyddyd yn un y mae erthygl 6 o Orchymyn 1995 (hysbysiad a chadarnhad o gyfarwyddiadau erthygl 4(2)) yn gymwys iddo a bod y cyfarwyddyd wedi dod i rym.

**Dirymu**

**7.** Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) (Rhif 2) 2012(**2**) wedi eu dirymu.

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru

11 March 2014

(**1**) O.S. 2012/801 (Cy.110).
(**2**) O.S. 2012/2319 (Cy.253).